

## **Ymateb Estyn i'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a'r ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn a chreu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Cyflwyniad**

Dyma gynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i wella a chynyddu'r ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Pontypridd. Mae'r cynnig yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd, ynghyd â'r ddarpariaeth chweched dosbarth, yn ardal Pontypridd yn ehangach. Y cynnig yw cau ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ynghyd â ffrwd Gymraeg ysgol ddwy iaith ac agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn eu lle.

### **Crynodeb**

Mae'r cynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd. Y cynnis yw cau Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Pont Siôn Norton a ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol-y-celyn a chreu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd. Bwriad cynnis ar wahân gan y cynigiwr yw trosglwyddo disgyblion sy'n cael addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn i ysgol 3-16 oed newydd, a gaiff ei hadeiladu ar safleoedd cyfagos ysgolion presennol Ysgol



Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu ar safle hen Ysgol Gynradd Heol-y-celyn.

Hefyd, mae'r cynnig yn nodi newidiadau i ddalgylch yr ysgol newydd. Bydd hwn yn cynnwys dalgylch presennol YGG Pont Siôn Norton ynghyd â dalgylch ffrwd Gymraeg bresennol Ysgol Gynradd Heol-y-celyn. Er bod y cynigiwr yn cydnabod y tebygolrwydd y bydd angen i blant sy'n mynd i YGG Pont Siôn Norton ar hyn o bryd deithio'n bellach i fynd i'r ysgol newydd, nid yw wedi nodi effaith hyn yn ddigonol ar les disgyblion.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni o ran gwelliant mewn darpariaeth addysgol, deilliannau disgyblion, yr amgylchedd dysgu ac arweinyddiaeth. Hefyd, mae'n esbonio'n glir sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â chynllun ehangach yr awdurdod lleol ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth ysgolion fel rhan o'i rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'i Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun o leiaf yn debygol o gynnal safon yr addysg yn yr ardal leol.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fanteision y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd effeithlon ac effeithiol ar adnoddau, cael amgylchedd dysgu pwrpasol a mwy o gapasiti ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r cynigiwr wedi nodi ychydig bach iawn yn unig o anfanteision i'r cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar oblygiadau i staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn y ddwy ysgol ynghyd â theithiau hwy o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion YGG Pont Siôn Norton ac, yn sgil hynny, costau cludiant uwch i'r awdurdod lleol. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys yn briodol y manteision a'r anfanteision yn gysylltiedig â chynnal y sefyllfa sydd ohoni.

Hefyd, mae'r cynnig yn nodi newidiadau i ddalgylch yr ysgol newydd. Bydd hyn yn cynnwys dalgylch presennol YGG Pont Siôn Norton ynghyd â dalgylch ffrwd cyfrwng Cymraeg presennol Ysgol Gynradd Heol-y-celyn. Nid yw'r cynnig hwn yn newid y ddarpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys disgyblion dalgylch presennol YGG Pont Siôn Norton a fydd yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol newydd, gan ei bod dros 1.5 milltir o'u cyfeiriad cartref. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn rhoi digon o fanylion am effaith y newid mewn dalgylchoedd ar amseroedd teithio a lles disgyblion.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniant hwn yn parhau o dan y cynnig. Mae'r cynigiwr wedi nodi'n briodol sut mae'r cynnig yn llunio rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae'r cynigiwr yn nodi'n addas y bydd y capasiti mwy yn yr ysgol newydd yn helpu i hybu'r ddarpariaeth ysgolion cyfrwng

Cymraeg yn yr ardal a sicrhau eu bod yn ateb y galw am leoedd. Felly, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn rhesymol dda effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau a'r ddarpariaeth i'r ddwy ysgol. Fodd bynnag, nid yw wedi ystyried yn ddigonol yr effaith ar arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgolion. Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb priodol o ddeilliannau ar gyfer yr ysgolion, sy'n gryno ac yn glir. Mae'n cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim dros gyfnod priodol. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn a chategoreiddio pob un o'r tair ysgol o dan y System Genedlaethol ar gyfer Categori Categori Ysgolion.

Arolygodd Estyn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn ym Mehefin 2014 ac roedd y barnau ar gyfer perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella ill dwy yn ddigonol. Arolygwyd YGG Pont Siôn Norton ym Medi 2014; barnwyd bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol a bod ei rhagolygon gwella yn dda. Gosodwyd y ddwy ysgol yn y categori 'Monitro gan Estyn' yn dilyn yr arolygiadau hyn. Tynnodd Estyn YGG Pont Siôn

Norton o'i rhestr ysgolion y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt yn Ebrill 2016. Fodd bynnag, barnwyd nad oedd Ysgol Gynradd Heol-y-celyn wedi gwneud cynnydd digonol yn dilyn ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2015 ac fe'i rhoddwyd yng nghategori statudol ysgolion y mae angen 'Gwelliant Sylweddol' arnynt. Tynnodd arolygwyr Estyn enw'r ysgol o'r categori gweithgarwch dilynol hwn yn dilyn ymweliad monitro pellach yn Ionawr 2017.

Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol wedi arfarnu perfformiad pob ysgol o ran y System Genedlaethol ar gyfer Categori Categori Ysgolion. Nod y system yw darparu darlun clir a theg o ba mor dda mae ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru ac mae'n helpu i nodi'r ysgolion sydd fwyaf angen help, cymorth ac arweiniad arnynt i wella. O dan y system, mae ysgolion wedi'u categorio yn ôl system 'goleuadau traffig' bedwar pwynt, sef yr ysgolion coch sydd angen y mwyaf o gymorth a'r ysgolion gwyrdd sydd angen y lleiaf o gymorth. Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol yn y categori 'melyn'. Mae hyn yn eu diffinio'n ysgolion effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda, sy'n gwybod pa feysydd y mae arnynt angen eu gwella ac sydd â'r potensial i wneud yn well fyth, trwy nodi'r cymorth priodol a gweithredu. Nid yw'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynigion ar safonau a darparu'r cwricwlwm yn yr ysgol newydd yn ddigonol. Mae'r cynnig yn cynnwys asesiadau priodol o'r effaith ar y gymuned ac ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys pobl ag anabledd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn arfarnu'n briodol effaith y newidiadau ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

## **Ymateb Estyn i'r cynnig i newid y ddarpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd ym Mhontypridd.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Cyflwyniad**

Dyma gynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i newid y ddarpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal Pontypridd. Mae'r cynnig yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd, ynghyd â'r ddarpariaeth chweched dosbarth, yn ardal Pontypridd. Y cynnig yw adeiladu ysgol pob oed 3-16 oed newydd yn lle ysgol gynradd ac ysgol uwchradd bresennol ym Mhontypridd. Mae'r cynigiwr yn nodi newidiadau i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd, a fydd yn effeithio ar ysgolion eraill yn yr ardal. Bwriad cynnig ar wahân gan y darparwr ar gyfer ad-drefnu ysgolion yw symud disgyblion sy'n mynd i'r Chweched Dosbarth yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd i ddarpariaeth arall fel rhan o'i gynnis i ddiwygio'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth yn ardal Pontypridd.

### **Crynodeb**

Mae'r cynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd. Y cynnis yw cau Ysgol Gynradd Cilfynydd ac Ysgol Uwchradd Pontypridd, ynghyd â'i chweched dosbarth, i greu ysgol pob oed 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd. Bydd disgyblion o'r chweched dodsbarth yn trosglwyddo naill



ai i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu i Goleg y Cymoedd, yn dibynnu ar ddewis y myfyriwr.

Hefyd, mae'r cynnig yn cynnwys newidiadau arfaethedig i ddalgyrch yr ysgol pob oed 3-16 oed newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi nodi effaith y newidiadau hyn i'r dalgyrchedd ar ysgolion eraill yn yr ardal yn ddigonol, na'u heffaith ar les disgyblion.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig arfaethedig o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni o ran y ddarpariaeth addysgol, deilliannau disgyblion, yr amgylchedd dysgu, ynghyd ag arweinyddiaeth a buddion ariannol. Hefyd, maent yn esbonio'n glir sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â chynllun ehangach yr awdurdod lleol ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth ysgolion fel rhan o'i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun o leiaf yn debygol o gynnal safon yr addysg yn yr ardal leol.

Mae'r cynigiwr yn nodi manteision y cynnig yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd effeithlon ac effeithiol ar adnoddau, parhad a dilyniant mewn dysgu disgyblion, y gallu i fanteisio ar amgylchedd dysgu pwrpasol, gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r staff, gan gynnwys arweinyddiaeth, ynghyd â'r defnydd gwell ar adnoddau ariannol. Hefyd, mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fod y cynnig yn debygol o gael effaith ar ostwng lefel bresennol y lleoedd dros ben ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'n briodol anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar drefniadau teithio i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth ar hyn o bryd. Hefyd, mae'n nodi'n briodol yr effaith ar staff o ran sicrwydd swyddi, yn enwedig yn gysylltiedig â dileu cwricwlwm y Chweched Dosbarth. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys yn briodol fanteision ac anfanteision bob un o'r cynigion eraill, gan gynnwys cynnal y sefyllfa sydd ohoni.

Yn ogystal, mae'r cynnig yn cynnwys newidiadau arfaethedig i ddalgyrch yr ysgol pob oed 3-16 oed newydd. Bydd derbyn disgyblion 3-11 oed yn aros fel y mae ac yn cynnwys y dalgyrch presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Cilfynydd. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn nodi newidiadau ar gyfer derbyn disgyblion 11-16 oed. Bydd y dalgyrch newydd yn cynnwys dalgyrch presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd ynghyd â'r ardaloedd ychwanegol sy'n rhan o ddalgyrch Ysgol Uwchradd ar hyn o bryd.

Mae'r rhain yn cynnwys ardal y Graig ym Mhontypridd, sydd yn dalgyrch Ysgol Gynradd Maes-y-coed ar hyn o bryd, ynghyd â dalgyrch Ysgol Gynradd Coedpenmaen.

Nid yw'r cynnig hwn yn newid y ddarpariaeth cludiant bresennol o'r cartref i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion Chweched Dosbarth Ysgol Uwchradd Pontypridd, a fydd yn parhau i dderbyn cludiant am ddim i'r sefydliad ôl-16 agosaf sy'n cynnig eu dewis gofynnol o gyrsiau, cyn belled ag y byddant yn bodloni'r meini prawf cymhwyso presennol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi rhoi digon o wybodaeth am faint o ddisgyblion fydd yn gorfod

teithio ymhellach i'w hysgol neu goleg newydd o'u dewis. Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylion am effaith y newid mewn dalgylchoedd ar amseroedd teithio a lles disgyblion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Cilfynydd ar hyn o bryd, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y gymuned, a bydd y daith i'r ysgol 3-16 oed yn peri mwy o risgiau i'r disgyblion ysgol gynradd.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Cilfynydd ac Ysgol Uwchradd Pontypridd yn addysgu Cymraeg fel ail iaith ond nid ydynt yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniant hwn yn parhau o dan y cynnig. Felly, mae'n ymddangos na fydd effaith ar y Gymraeg yn deillio o'r cynnig hwn.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn rhesymol dda effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer y ddwy ysgol. Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb priodol o ddeilliannau ar gyfer yr ysgolion, sy'n gryno a chlir. Mae'n cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim dros gyfnod priodol. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol a'u categorïau diweddaraf yn gysylltiedig â'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion.

Arolygodd Estyn Ysgol Gynradd Cilfynydd ym Mai 2014 ac roedd y barnau ar gyfer perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella yn ddigonol fel ei gilydd. Arolygodd Estyn Ysgol Uwchradd Pontypridd yn Ionawr 2014 a barnwyd bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol, gyda'i rhagolygon gwella yn dda. Gosodwyd y ddwy ysgol yn y categori 'Monitro gan Estyn' yn dilyn yr arolygiadau hyn. Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi arfarnu perfformiad pob ysgol yn gysylltiedig â'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion. Nod y system yw darparu darlun clir a theg o ba mor dda mae ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru ac mae'n helpu i nodi'r ysgolion sydd fwyaf angen help, cymorth ac arweiniad arnynt i wella. O dan y system, mae ysgolion wedi'u categorio yn ôl system 'goleuadau traffig' bedwar pwynt, sef yr ysgolion coch sydd angen y mwyaf o gymorth a'r ysgolion gwyrdd sydd angen y lleiaf o gymorth. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Uwchradd Pontypridd yn y categori 'melyn' ac mae Ysgol Gynradd Cilfynydd yn y categori

'gwyrdd'. Mae'r cynigiwr o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y deilliannau addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith debygol y cynigion ar safonau a darparu'r cwricwlwm, gan gynnwys gwell pontio a chyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion. Mae wedi ystyried yn briodol yr effaith gadarnhaol gaiff hyn ar ddeilliannau a lles disgyblion. Mae'r cynnig yn cynnwys asesiadau priodol o'r effaith ar y gymuned ac ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anabledd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn arfarnu'n addas effaith y newidiadau ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.



## **Ymateb Estyn i'r cynnig i newid y ddarpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal y Ddraenen Wen.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Cyflwyniad**

Dyma gynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i newid y ddarpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal y Ddraenen Wen. Mae'r cynnig yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd, ynghyd â'r ddarpariaeth chweched dosbarth, yn ardal Pontypridd yn ehangach. Y cynnis yw cau ysgol uwchradd a dwy ysgol gynradd ac adeiladu ysgol pob oed 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd y dosbarth ADY sydd wedi'i ddynodi gan yr awdurdod lleol yn cael ei leoli yn yr ysgol newydd. Hefyd, mae'r cynnis yn cynnwys newidiadau arfaethedig i ddalgyrch yr ysgol pob oed 3-16 oed newydd. Bwriad cynnis ar wahân gan y cynigiwr ar gyfer ad-drefnu ysgolion yw symud disgyblion sy'n mynd i'r chweched dosbarth yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd i ddarpariaeth arall fel rhan o'i gynnis i ddiwygio'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd.

### **Crynodeb**

Mae'r cynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal y Ddraenen Wen. Y cynnis yw cau Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd Heol-y-celyn ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, ynghyd â'i ddarpariaeth chweched dosbarth. Bydd ysgol pob oed 3-16 oed newydd yn cael ei hadeiladu ar safleoedd cyfagos Ysgolion



Cynradd ac Uwchradd presennol y Ddraenen Wen. Bydd hon hefyd yn cynnwys dosbarth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer cyfnod allweddol 3. Gallai cynnig ar wahân ar ddyfodol y ddarpariaeth ADY yn yr ardal gael effaith ar ddisgyblion yn mynychu'r ysgol newydd. Mae'r cynigiwr yn nodi fod y cynnig hwn ynghylch ADY yn cynnwys cau dau ddosbarth ADY yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn oherwydd y gostyngiad yn y niferoedd yno. Pe bai'r ddau gynnig yn llwyddiannus, ni fydd unrhyw ddarpariaeth ADY pwrpasol yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen na disgyblion cyfnod allweddol 2.

Nid yw'r cynigiwr yn darparu digon o dystiolaeth o sut bydd anghenion y disgyblion hyn yn cael eu bodloni yn yr ysgol newydd. Hefyd, mae'r cynigiwr yn nodi newidiadau i ddalgylch yr ysgol pob oed 3-16 oed newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi nodi'n ddigonol effaith y newidiadau hyn i ddalgylchoedd ar ysgolion eraill yn yr ardal na'u heffaith ar les disgyblion.

Mae'r cynnig yn nodi mai'r disgyblion hynny sy'n cael addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Gynradd bresennol Heol-y-celyn yn unig fydd yn trosglwyddo i'r ysgol pob oed 3-16 oed newydd. Mae'r cynigiwr wedi cyflwyno cynnig ar wahân ar gyfer sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i ddarparu ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn. Hefyd, mae cynnig ar wahân ar gyfer ad-drefnu ysgolion wedi'i gyflwyno fel rhan o gynlluniau'r awdurdod lleol i ddiwygio'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth yn ardal Pontypridd. O dan y cynnig, bydd disgyblion sy'n mynd i Chweched Dosbarth Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn trosglwyddo naill ai i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu i Goleg y Cymoedd, yn dibynnu ar ddewis y myfyriwr.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni o ran gwelliant mewn darpariaeth addysgol, deilliannau disgyblion, yr amgylchedd dysgu, yn ogystal ag arweinyddiaeth a buddion ariannol. Hefyd, mae'n esbonio'n glir sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â chynllun ehangach yr awdurdod lleol ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth ysgolion fel rhan o'i rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y cynllun o leiaf yn debygol o gynnal safon yr addysg yn yr ardal leol.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fanteision y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd effeithlon ac effeithiol ar adnoddau, parhad a dilyniant mewn dysgu disgyblion, y gallu i fanteisio ar amgylchedd dysgu pwrpasol, gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol i'r staff, gan gynnwys arweinyddiaeth, ynghyd â'r defnydd gwell ar adnoddau ariannol. Hefyd, mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fod y cynnig yn debygol o gael effaith ar ostwng lefel bresennol y lleoedd dros ben ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'n briodol anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar drefniadau teithio i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth ar hyn o bryd a chynnydd mewn costau teithio i'r awdurdod lleol. Hefyd, mae'n nodi'n briodol yr effaith ar staff o ran sicrwydd swyddi, yn enwedig yn



gysylltiedig â dileu cwricwlwm y Chweched Dosbarth. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys yn briodol fanteision ac anfanteision bob un o'r cynigion eraill, gan gynnwys cynnal y sefyllfa sydd ohoni.

Mae'r cynnig yn cynnwys newidiadau arfaethedig i ddalylch yr ysgol pob oed 3-16 oed newydd. Bydd derbyn disgyblion 3-11 oed yn aros fel y mae ac yn cynnwys dalylchoedd cyfun presennol Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-celyn (cyfrwng Saesneg). Fodd bynnag, mae'r cynnig yn nodi newidiadau ar gyfer derbyn disgyblion 11-16 mlwydd oed. Bydd y dalylch newydd yn cynnwys dalylch presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ynghyd â dalylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn, Ton-teg. Fodd bynnag, bydd y dalylch newydd yn eithrio ardal y Graig, Pontypridd, sydd yn dalylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed, a dalylch

Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fod y newidiadau hyn yn angenrheidiol i baru'r galw â'r cyflenwad sydd ar gael yn y ddarpariaeth ysgolion uwchradd yn nwyrain Taf Elái, ynghyd â'r galw ychwanegol am leoedd o ganlyniad i ddatblygiad tai yn ne-ddwyrain y Fwrdeistref Sirol.

Nid yw'r cynnig hwn yn newid y ddarpariaeth cludiant bresennol o'r cartref i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn Chweched Dosbarth Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, a fydd yn parhau i gael cludiant am ddim i'r sefydliad ôl-16 agosaf sy'n cynnig y dewis o gyrsiau y mae arnynt ei angen, cyn belled ag y byddant yn bodloni'r meini prawf cymhwyso presennol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi darparu digon o wybodaeth am faint o ddisgyblion fydd yn gorfod teithio ymhellach i'w hysgol neu goleg newydd o'u dewis. Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylion am effaith y newid mewn dalylchoedd ar amseroedd teithio a lles disgyblion.

Ar hyn o bryd, mae'r holl ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yn addysgu Cymraeg fel ail iaith ond nid ydynt yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniant hwn yn parhau o dan y cynnig. Felly, mae'n ymddangos na fydd effaith ar y Gymraeg yn deillio o'r cynnig hwn.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn rhesymol dda effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer y ddwy ysgol. Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb priodol o ddeilliannau ar gyfer yr ysgolion, sy'n gryno a chlir. Mae'n cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim dros gyfnod priodol. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer y tair ysgol a'u categorïau diweddaraf yn gysylltiedig â'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion.

Arolygydd Estyn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn ym Mehefin 2014 ac roedd y barnau ar gyfer perfformiad a rhagolygon gwella'r ysgol fel ei gilydd yn ddigonol. Arolygwyd Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen yn Ionawr 2012 ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ym Mawrth 2014. Barnwyd bod perfformiad presennol y ddwy ysgol yn ddigonol, a barnwyd bod eu rhagolygon gwella yn dda. Gosodwyd pob un o'r tair ysgol yn y categori 'Monitro gan Estyn' yn dilyn yr arolygiadau hyn. Cafodd Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen eu tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol hwn yn Ebrill 2013 a Hydref 2015, yn y drefn honno.

Fodd bynnag, barnwyd nad oedd Ysgol Gynradd Heol-y-celyn wedi gwneud digon o gynnydd yn dilyn ymweliad monitro yn Nhachwedd 2015 ac fe'i gosodwyd yn y categori statudol ysgolion y mae angen 'Gwelliant Sylweddol' arnynt. Tynnodd arolygwyr Estyn enw'r ysgol o'r categori gweithgarwch dilynol hwn yn dilyn ymweliad monitro pellach yn Ionawr 2017.

Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi arfarnu perfformiad pob ysgol yn gysylltiedig â'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion. Nod y system yw darparu darlun clir a theg o ba mor dda mae ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru ac mae'n helpu i nodi'r ysgolion sydd fwyaf angen help, cymorth ac arweiniad arnynt i wella. O dan y system, mae ysgolion wedi'u categorio yn ôl system 'goleuadau traffig' bedwar pwynt, sef yr ysgolion coch sydd angen y mwyaf o gymorth a'r ysgolion gwyrdd sydd angen y lleiaf o gymorth. Mae pob un o'r tair ysgol yn y categori 'melyn' ar hyn o bryd. Mae hyn yn eu diffinio'n ysgolion effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda, sy'n gwybod pa feysydd y mae arnynt angen eu gwella ac sydd â'r potensial i wneud yn well fyth, trwy nodi'r cymorth priodol a gweithredu.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith debygol y cynigion ar safonau a darparu'r cwricwlwm, gan gynnwys gwell pontio a chyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion. Mae wedi ystyried yn briodol yr effaith gadarnhaol gaiff hyn ar ddeilliannau a lles disgyblion. Gallai cynnig ar wahân ynghylch dyfodol y ddarpariaeth ADY yn yr ardal gael effaith ar ddisgyblion yn mynychu'r ysgol newydd. Mae'r cynigiwr yn nodi fod y cynnig hwn ynghylch ADY yn cynnwys cau dau ddsbarth ADY yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn oherwydd y gostyngiad yn y niferoedd yno. Pe bai'r ddau gynnig yn llwyddiannus, ni fydd unrhyw ddarpariaeth ADY pwrpasol yn yr ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen na disgyblion cyfnod allweddol 2. Nid yw'r cynigiwr yn darparu digon o dystiolaeth o sut bydd anghenion y disgyblion hyn yn cael eu bodloni yn yr ysgol newydd.

Mae'r cynnig yn cynnwys asesiadau priodol o'r effaith ar y gymuned ac ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anabledd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn arfarnu'n addas effaith y newidiadau ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

## **Ymateb Estyn i'r cynnig i newid y ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Cyflwyniad**

Dyma gynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i newid y ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd. Mae'r cynnig yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd, ynghyd â'r ddarpariaeth chweched dosbarth, yn yr ardal. Y cynnig yw datblygu dwy ganolfan ragoriaeth ôl 16 yn yr ardal drwy gau'r tri chweched dosbarth sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd mewn tair ysgol uwchradd. Bydd disgyblion yn trosglwyddo i'r naill ganolfan chweched dosbarth neu'r llall, neu yn achos y disgyblion sy'n dymuno parhau â'u haddysg Gatholig, trefnir darpariaeth mewn coleg yng Nghaerdydd i'r disgyblion hyn.

### **Crynodeb**

Mae'r cynnis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn llunio rhan o'i gynnis ehangach o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd. Y cynnis yw cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 i Ysgol Gyfun Bryncelynnog a Choleg y Cymoedd, Nantgarw. Mae'r cynnis yn nodi y bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd, i'r disgyblion hynny sy'n trosglwyddo o Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain sy'n dymuno

parhau â'u haddysg Gatholig. Hefyd, mae'r cynigiwr wedi cyflwyno cynigion ar wahân o dan ei gynllun ehangach i ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig i gau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun Cilfynydd, gan sefydlu ysgol pob oed 3-16 oed newydd yn eu lle. Yn yr un modd, mae cynnig arall yn bwriadu cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-celyn, a chreu ysgol pob oed 3-16 oed, cyfrwng Saesneg, newydd. O dan gynnig ar wahân, bydd Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn cau a bydd ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn

cael ei chreu i ddarparu ar gyfer ei disgyblion a'r disgyblion hynny sy'n cael eu haddysg yn ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol-y-celyn ar hyn o bryd.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safon bresennol y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir ar gyfer y manteision disgwylidig arfaethedig o gymharu â'r sefyllfa sydd ohoni, o ran y gwelliant i'r ddarpariaeth addysgol a'r defnydd effeithiol ac effeithlon ar adnoddau. Hefyd, mae'n esbonio'n glir sut mae'r cynnig yn cydfynd â chynllun ehangach yr awdurdod lleol ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth ysgolion fel rhan o'i rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu tystiolaeth ddigonol i ddangos bod y cynllun yn debygol o gynnal safon yr addysg yn yr ardal leol, o leiaf.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fanteision y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd effeithlon ac effeithiol ar adnoddau, dileu cyrsiau sy'n cael eu dyblygu a gwella'r profiad dysgu i ddisgyblion trwy greu dosbarthiadau chwech mwy o faint. Hefyd, mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol fod y cynnig yn debygol o gael effaith ar ostwng lefel bresennol y lleoedd dros ben ar draws yr awdurdod lleol, gan gynnwys y ddarpariaeth chweched dosbarth bresennol yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'n addas anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar yr effaith ar drefniadau teithio i ddisgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth o fewn eu dalgylch ar hyn o bryd. Hefyd, mae'n nodi'n briodol yr effaith ar staff o ran sicrwydd swyddi i staff sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn y tair ysgol uwchradd, pe bai cwricwlwm y Chweched Dosbarth yn cael ei ddileu. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys yn briodol fanteision ac anfanteision bob un o'r cynigion eraill, gan gynnwys cynnal y sefyllfa sydd ohoni.

Hefyd, mae'r cynnig yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r dalgylchoedd tybiannol ar gyfer addysg ôl-16 at ddiben rheoli cludiant o'r cartref i'r ysgol. Nid yw myfyrwyr Rhondda Cynon Taf sy'n mynd i chweched ddosbarth y tu allan i'w dalgylch yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol, heblaw nad yw'r Rhaglen Astudio o'u dewis ar gael yn yr ysgol yn y dalgylch. Mae'r cynigiwr yn nodi diwygiadau i ddalgylchoedd Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen ar gyfer darpariaeth ôl-16, i osod yr ardaloedd hyn yn nalgylch chweched dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Bydd gan ddisgyblion Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd y dewis o fynychu darpariaeth chweched dosbarth ysgol arall o'u dewis neu Goleg y Cymoedd ar gyfer eu haddysg ôl-16. Gall disgyblion sy'n dymuno

parhau â'u haddysg ôl-16 yn y ffydd Gatholig ddewis mynychu Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant, Caerdydd. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim i'r ddarpariaeth agosaf sy'n cynnig dewis gyrsiau myfyrwyr sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf pellter cymhwyso cychwynnol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi rhoi digon o wybodaeth am faint o ddisgyblion fydd yn gorfod teithio ymhellach i'w hysgol neu goleg newydd o'u dewis. Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylion am effaith y newid i amser teithio myfyrwyr ar eu lles.

Nid yw Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn cynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y trefniant hwn yn parhau o dan y cynnig hwn. Felly, mae'n ymddangos na fydd effaith ar y Gymraeg yn deillio o'r cynnig hwn.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn rhesymol dda effaith y cynigion ar ansawdd darpariaeth a rheolaeth y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig. Mae'r cynnig yn cynnwys crynodeb priodol o ddeilliannau ar gyfer yr ysgolion, sy'n gryno ac yn glir. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn a chategoriâu pob un o'r pedair ysgol, ynghyd â Choleg y Cymoedd a Choleg Dewi Sant, yn gysylltiedig â'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Categori Ysgolion.

Arolygodd Estyn Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn Chwefror 2016; Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ym Mawrth 2014; Ysgol Uwchradd Pontypridd yn Ionawr 2014; a Choleg y Cymoedd yn Nhachwedd 2017. Barnwyd bod perfformiad presennol y pedwar yn ddigonol a bod eu rhagolygon gwella yn dda. Arolygwyd Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain gan Estyn ym Mai 2018 dan y trefniadau arolygu newydd a barnwyd ei bod yn dda ar gyfer pob un o'r pum maes arolygu. Arolygwyd Coleg Dewi Sant ddiwethaf yn 2010 a barnwyd bod ei pherfformiad presennol a'i rhagolygon gwella yn rhagorol.

Hefyd, mae'r awdurdod lleol wedi arfarnu perfformiad pob ysgol o ran y System Genedlaethol ar gyfer Categori Categori Ysgolion. Nod y system yw darparu darlun clir a theg o ba mor dda mae ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill ar draws Cymru ac mae'n helpu i nodi'r ysgolion sydd fwyaf angen help, cymorth ac arweiniad arnynt i wella. O dan y system, mae ysgolion wedi'u categorio yn ôl system 'goleuadau traffig' bedwar pwynt, sef yr ysgolion coch sydd angen y mwyaf o gymorth a'r ysgolion gwyrdd sydd angen y lleiaf o gymorth. Fodd bynnag, nid yw'r System Genedlaethol ar gyfer Categori Categori Ysgolion yn ystyried darpariaeth a deilliannau Ôl-16. Mae'r cynigiwr yn nodi fod Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn ysgolion categori 'melyn', ac mae Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol categori 'gwyrdd'. Mae'r cynigiwr o'r farn y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y deilliannau addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal. Fodd bynnag, nid yw'r sail resymegol dros leoli'r ganolfan chweched dosbarth ym Bryncelynnog yn hytrach nag Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn glir. Mae Bryncelynnog wedi'i lleoli gerllaw Ysgol y Pant, sy'n cadw'i darpariaeth chweched dosbarth.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith debygol y cynigion ar safonau a darparu'r cwricwlwm, gan gynnwys profiadau dysgu gwell a gostyngiad yn nifer y cyrsiau sydd ar gael sy'n cael eu dyblygu. Mae'r cynnig yn cynnwys asesiadau priodol o'r effaith ar y gymuned ac ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anabledd. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn arfarnu'n addas effaith y newidiadau ar ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.